



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG47488

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 29 Ionawr 2024

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 21 Ebrill 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Trosolwg

Rydym yn gofyn am eich barn am y newidiadau sy'n cael eu cynnig i'r Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru.

Sut i ymateb

Cyflwynwch eich ymatebion 21 Ebrill 2024, drwy unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- e-bost
- drwy'r post
- ffurflen ar-lein

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen hon ar gael yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau.

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

E-bostiwch: plant.health@llyw.cymru

Tir, Natur a Bwyd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

[Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document also available in English](#)

Rheoliadau Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut i arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan y staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn eu trafod neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i ymgynghoriadau, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae amodau a thelerau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych am i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata a gedwir gan Lywodraeth Cymru fel arall yn cael eu cadw am ddim mwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i ofyn inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'ddileu'
- i gludo data (mewn amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost:
SwyddogDiogeluData@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Y Cefndir	6
Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn?.....	6
Y camau nesaf	7
Y cynnig	7
Sut i ymateb	7

Y Cefndir

1. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru yn esbonio sut y dylai awdurdodau amgylcheddol yng Nghymru ddefnyddio'r darpariaethau ynghylch cytundebau rheoli rhywogaethau a gorchmynion rheoli rhywogaethau a gynhwysir yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Gweinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r awdurdodau amgylcheddol sydd â'r pwerau i wneud cytundebau neu orchmynion rheoli rhywogaethau yng Nghymru. Fe'u cyhoeddwyd gyntaf yn 2017.
2. Nod y darpariaethau rheoli rhywogaethau yw sicrhau bod tîrfeddianwyr, dan amgylchiadau priodol, yn gweithredu i ddelio â rhywogaethau estron goresgynnol a rhywogaethau cynhenid a arferai breswyllo yma, neu'n caniatáu i eraill fynd ar dir i gynnal y gweithrediadau hynny er mwyn atal y rhywogaethau hynny rhag ymsefydlu neu ledaenu. Gall cael mynd ar dir yn gynnar i reoli rhywogaeth estron oresgynnol sydd newydd gyrraedd ac sy'n achosi, neu'n debygol o achosi niwed, fod yn bwysig i helpu i atal ei lledaeniad cyn iddi ymsefydlu a dod yn anoddach ac yn ddrytach i'w rheoli. Fel arfer, mae tîrfeddianwyr yn hapus i roi eu caniatâd yn wirfoddol i bobl fynd ar eu tir. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod hyn yn bosibl bob amser, hyd yn oed os na wyddom pwy yw'r perchennog dan sylw. Mae pwerau'r darpariaethau rheoli rhywogaethau yn sicrhau bod yr awdurdod amgylcheddol yn cael mynd ar y tir a chael gwared ar y rhywogaeth estron oresgynnol neu'n cael caniatáu i eraill fynd ar y tir a chynnal y gweithrediadau hynny yn ôl y gofyn.
3. Mae'r darpariaethau rheoli rhywogaethau yn cynnwys cytundebau rheoli rhywogaeth, gorchmynion rheoli rhywogaeth a gorchmynion brys rheoli rhywogaeth. Mae cytundeb rheoli rhywogaeth yn drefniant mwy ffurfiol ond gwirfoddol o hyd rhwng awdurdod amgylcheddol a perchennog (neu berchnogion) safle. Mae'n nodi'r gweithrediadau y bydd angen eu cynnal. Nid oes unrhyw gosb am beidio â chydymffurfio â chytundeb rheoli rhywogaeth, er y gallai peidio â chydymffurfio arwain at wneud gorchymyn rheoli rhywogaeth. Gall awdurdod amgylcheddol weithredu os bydd o'r farn nad yw'r perchennog y mae gofyn iddo gynnal gweithrediad o dan orchymyn rheoli rhywogaeth wedi gwneud hynny erbyn y dyddiad neu yn y ffordd a nodir gan y gorchymyn. Os na fydd person yn cydymffurfio â gofynion gorchymyn rheoli rhywogaeth, gall hyn arwain at ddirwy neu erlyniad. Pan fydd Awdurdod Amgylcheddol yn credu bod angen gweithredu ar frys, gall roi 'gorchymyn brys rheoli rhywogaeth' heb unrhyw un o'r camau blaenorol.
4. Mae gofyn ar i Weinidogion Cymru gynhyrchu Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau a chynnal ymgynghoriad cyn cyhoeddi, newid neu ddisodli'r cod. Rhaid gosod y cod neu god sy'n cymryd ei le gerbron y Senedd. Gellir ystyried y cod mewn unrhyw achos llys cysylltiedig.

Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn?

5. Rydym yn gofyn am eich barn am y newidiadau rydym yn eu cynnig i'r Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru. Cyhoeddwyd y cod presennol yn 2017. Rydym yn cynnig gwneud newidiadau

sy'n diweddarau'r cod. Mae'r newidiadau'n cynnwys alinio peth o'r testun o fewn y cod yn agosach i'r gofynion deddfwriaethol, diweddarau cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a gofynion cyfreithiol lle mae deddfwriaeth newydd wedi'i chyflwyno ers 2017 a newid trefn rhai o'r adrannau yn y cod. Gwnaed newidiadau hefyd fel bod y termau 'rhaid' a 'dylai' yn cael eu defnyddio mewn ffordd fwy cywir a chyson trwy'r ddogfen. Mae hyn yn dilyn adroddiad gan y Cyn-bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Chyfreithiol (CLAC) a ddywedodd y gallai'r cod fod yn gliriach i Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru o ran ei ddefnydd o'r geiriau 'rhaid' a 'dylai'.

Y camau nesaf

6. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn ystyried yr holl ymatebion wrth baratoi fersiwn derfynol y Cod. Unwaith y bydd yr holl ymatebion wedi'u hystyried, bydd Ymateb y Llywodraeth yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan. Y bwriad yw y bydd y cod diwygiedig yn cael ei fabwysiadu gan Weinidogion Cymru, ei osod yn y Senedd a'i gyhoeddi ar ein gwefan.

Y cynnig

7. Darperir fersiwn o'r Cod Ymarfer gyda thestun newydd mewn **ffont coch** a darnau wedi'u dileu mewn **testun coch gyda llinell drwyddo (a welir fel hyn)**.

Sut i ymateb

8. Byddwch cystal â chyflwyno'ch sylwadau erbyn 21 Ebrill 2024, drwy un o'r ffyrdd canlynol:
 - e-bost
 - drwy'r post
 - ffurflen ar-lein